# Bwletin y Farchnad HCC

Mehefin 2024

> **Data dosbarthu carcasau ar gyfer 2023 yn datgelu effaith newid amodau tywydd ar garcasau cig eidion a chig oen. Mae Bwletin y Farchnad y mis hwn yn cynnig dadansoddiad manwl o'r data.**
>
> **Glesni Phillips - Swyddog Gweithredol Deallusrwydd, Dadansoddi a Mewnwelediad Busnes**



## ŴYN

Mae gwybodaeth a gasglwyd mewn lladd-dai ym Mhrydain Fawr yn ystod 2023 yn rhoi cipolwg ar ddosbarthiad carcasau cig oen wedi'u pesgi ar draws grid dosbarthu EUROP o ran cydffurfiad a dosbarth braster. Mae'r canlyniadau'n dangos bod 57% o'r carcasau cig oen yn y sampl pwysau marw wedi'u dosbarthu gyda chydffurfiad **R** – gostyngiad bach o 58% yn 2022 a 59% yn 2021.

Yn 2023, nododd adroddiadau fod llai o ŵyn ar lawr gwlad, ac roedd tywydd garw yn parhau i effeithio ar amseroedd pesgi. Roedd costau mewnbwn fferm uchel hefyd yn dylanwadu ar benderfyniadau'r cynhyrchwyr wrth brynu bwyd, gan effeithio ymhellach ar amseroedd pesgi. Er mwyn lleihau costau, efallai y bydd rhai cynhyrchwyr wedi gwerthu eu hanifeiliaid cyn iddynt gyrraedd eu pwysau targed. Adlewyrchwyd y ffactorau hyn yn y carcasau cig oen, a oedd ar y cyfan yn ysgafnach, gyda chyfran uwch yn cael eu dosbarthu fel rhai mwy darbodus o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Mae hwn yn duedd sy'n dod i'r amlwg, lle mae cyfran gynyddol o ŵyn yn y dosbarthiadau braster 1 a 2. Yn 2019, mae'r data'n dangos bod tua 16% o'r sampl yn y dosbarth braster **1** neu **2**, fodd bynnag, yn 2023 mae'r gyfran hon wedi cynyddu i dros 25% - sy'n golygu bod gan garcasau lawer lai o fraster.

**Canran o'r Holl Garcasau o Ŵyn yn Ôl Dosbarth Braster Ym Mhrydain Fawr**

| | 1 | 2 | 3L | 3H | 4L | 4H | 5 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2021** | 1.0 | 19.5 | 52.7 | 22.6 | 3.9 | 0.3 | 0.0 |
| **2022** | 1.9 | 22.5 | 51.9 | 20.2 | 3.2 | 0.3 | 0.0 |
| **2023** | 1.9 | 23.5 | 50.6 | 20.1 | 3.7 | 0.3 | 0.0 |

*Ffynhonnell: AHDB*

Cyflawnodd bron i 58% o'r ŵyn a broseswyd mewn lladd-dai ym Mhrydain y graddau targed (h.y., cydymffurfiad **E**, **U** neu **R**, a braster **2** neu **3L**) yn 2023. Er bod hyn ychydig yn is na'r 61% a gyflawnwyd yn 2022, mae'n parhau i fod yn welliant dros y 55% yn 2019. Roedd cyfran y carcasau sy'n cyflawni dosbarthiad gradd **R2** neu **R3L** gradd bron i 42%, yn debyg i lefelau'r flwyddyn flaenorol. Mae'r raddiau yma fel arfer yn diwallu pris sylfaenol prosesydd, gan ei gwneud yn galonogol bod nifer o'r ŵyn a aseswyd wedi cyflawni'r dosbarthiadau yma.

**Roedd dros 40% o ŵyn wedi cyflawni'r gofynion R2 neu R3L yn 2023**

## GWARTHEG DETHOL

Mae gwybodaeth hefyd yn cael ei chasglu ar gyfer gwartheg mewn lladd-dai ym Mhrydain Fawr, gyda'r data wedi'u categoreiddio i wartheg dethol. Mae canlyniadau 2023 ar gyfer bustych yn seiliedig ar bron i 692,000 o garcasau. Mae'r data'n dangos bod y rhan fwyaf o fustych (tua 16%) wedi cofnodi pwysau rhwng 360-380kg, yn debyg i bwysau cyfartalog 2022. Cyflawnodd bron i 46% o'r bustych ddosbarthiad cydffurfiad **R**, gostyngiad o 1 pwynt canran ar y flwyddyn.

Roedd cynnydd yn nifer y bustych gyda llai o fraster yn 2023, gyda dros 14% o'r sampl yn cyflawni naill ai dosbarthiad braster **1** neu **2** (i fyny o 12.5% yn 2022). Mae'n debygol mai twf glaswellt cyfyngedig a chostau mewnbwn fferm uwch yw'r rhesymau y tu ôl i'r newid hwn. Yn ogystal, roedd prisiau gât fferm gwartheg dethol yn gryf iawn yn ystod 2023 hefyd, a allai fod wedi annog cynhyrchwyr i gael gwared ar eu hanifeiliaid yn gynharach. Dylanwadodd y ffactorau hyn ar ddosbarthiad carcasau bustych wedi'u pesgi, gyda llai o garcasau yn cyrraedd y gradd targed **R4L**, i lawr 1.8 pwynt canran i 15.5%. Fodd bynnag, fe wnaeth y rhai a gyflawnodd **R3** gynyddu o 0.3 pwynt canran i 21.4%. Ar y cyfan, cyflawnodd 37% o'r bustych y graddau targed hyn - gostyngiad o 1.5 pwynt canran o'r flwyddyn flaenorol.

**Cyrhaeddodd 37% o fustych y graddau targed o R3 neu R4L yn 2023**

**Beth mae hyn yn ei olygu i'r diwydiant?**

*Er mwyn gwneud y mwyaf o effeithlonrwydd ac elw cynhyrchwyr yng nghanol costau mewnbwn fferm uchel, dylai cynhyrchwyr cig oen a chig eidion fodloni manylebau cwsmeriaid a'r farchnad. Mae'r rhain yn seiliedig ar ofynion cwsmeriaid ac effeithlonrwydd cynhyrchu. Mae carcasau y tu allan i'r manylebau hyn yn arwain at gosbau a chostau cadwyn gyflenwi uwch.*

*Mae'r canlyniadau ar gyfer 2023 wedi'u cymryd o sampl adrodd prisiau defaid a gwartheg pwysau marw AHDB mewn lladd-dai ledled Prydain. Data gan AHDB.*

## GWARTHEG

### Prisiau – wythnos yn dod i ben 22 Mehefin

Y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych oedd **476.9c/kg**. Roedd hyn:


- - 0.2c ar yr wythnos flaenorol,
- 1.1c islaw lefelau blwyddyn yn gynharach.


Roedd y prisiau pwysau marw ar gyfer categorïau gwartheg eraill fel a ganlyn -

- Heffrod: 474.6c/kg (+0.4c ar yr wythnos),
- Teirw ifanc: 467.7c/kg (+2.5c ar yr wythnos), a
- Buchod difa: 356.5c/kg (- 2.2c ar yr wythnos).

### Trwybwn – Mai 2024

- Cyfanswm y trwybwn gwartheg mewn lladd-dai yn y DU = 236,600 pen – cynnydd o 2% ar y flwyddyn
- Cyfanswm y trwybwn gwartheg dethol = 184,200 pen - i fyny 3% ar y flwyddyn.
  - ➢ *bustych +2%, heffrod +5%, a theirw ifanc +2%.*
- Cyfartaledd pwysau carcasau gwartheg dethol = 344.3kg (-0.6kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn gwartheg llawn-dwf = 44,200 pen - i lawr 4% ar y flwyddyn.




## DEFAID

### Prisiau – yr wythnos yn dod i ben 22 Mehefin

Roedd y pris pwysau marw ar gyfer ŵyn ym Mhrydain ar gyfartaledd yn 780.0c/kg. Roedd hyn:

- - 30.7c ar yr wythnos flaenorol,


Cyrhaeddodd y niferoedd a ddaeth ymlaen 29,600 pen. Roedd hyn:


- - 3% ar yr wythnos flaenorol, a
- 33% o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach.

> ***Noder:*** *Oherwydd newid ym methodoleg arolwg pwysau marw Prydain Fawr (o 25/11/2023) rydym yn argymell bod yn ofalus wrth wneud cymariaethau hanesyddol.*

### Trwybwn – Mai 2024

- Cyfanswm y trwybwn defaid mewn lladd-dai yn y DU = 925,000 pen – gostyngiad o 12% ar y flwyddyn.
- Trwybwn ŵyn = 816,600 pen – i lawr 12% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcas ŵyn cyfartalog = 20.6kg (+0.2kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn mamogiaid a hyrddod difa = 108,400 pen – i lawr 13% ar y flwyddyn.




## MOCH

### Prisiau – yr wythnos yn dod i ben 15 Mehefin

Roedd Pris Mochyn Cyfan Manyleb yr UE (APP) ym Mhrydain Fawr yn **212.4c/kg**. Roedd hyn:

- - 0.5c ar yr wythnos flaenorol,
- - 9.6c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 34.5c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2018-22: 178.0c/kg).

### Trwybwn – Mai 2024

- Cyfanswm y trwybwn moch mewn lladd-dai yn y DU = 872,000 pen – gostyngiad o 2% ar y flwyddyn.
- Trwybwn moch heb fagu = 857,200 pen – i lawr 2% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcas moch heb fagu cyfartalog = 89.9kg (+1.2kg ar y flwyddyn)
- Trwybwn hwch a baedd = 14,800 pen – i lawr 19% ar y flwyddyn.

